



HM Government

Strategaeth Ariannu Dioddefwyr

Mai 2022

CP 684



Strategaeth Ariannu Dioddefwyr

Cyflwynwyd gerbron y Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
trwy orchymyn Ei Mawrhydi

Mai 2022



© Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn victimservicescommissioning@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-3374-1

E02752184

05/22

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 70% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Rhagair Gweinidogol	6
Crynodeb Gweithredol.....	8
Cyflwyniad	10
Gweledigaeth a Nodau Strategol	12
Nod 1 – ariannu’r sector cymorth yn fwy strategol.....	14
Beth yw’r heriau?	14
Yr hyn y byddwn yn ei wneud	15
Nod 2 – Dileu’r rhwystrau at fynediad	18
Beth yw’r heriau?	18
Yr hyn y byddwn yn ei wneud	18
Nod 3 – Gweithredu canlyniadau clir a chyson	24
Beth yw’r heriau?	24
Yr hyn y byddwn yn ei wneud	24
Gweithredu a Goruchwylio.....	27
Atodiad A – Canlyniadau craidd	28
Atodiad B – Metrigau Craidd	31
Atodiad C – Ein dull gweithredu	34
Atodiad Ch – Datganiad cydraddoldeb	35
Atodiad D – Rhestr termau	36

Rhagair Gweinidogol



Mae troseddau yn dinistrio bywydau, gydag effaith bellgyrhaeddol a pharhaus yn aml ar ddiodefwyr.

Mae angen help a chymorth ar lawer o ddiodefwyr – nid yn unig i ddod dros eu diodeffaint, ond i roi'r hyder iddynt ddod ymlaen a bwrw ymlaen â'u hachos yn y system cyfiawnder troseddol. Yn ei dro, mae hyn yn ein cynorthwyo i ddwyn mwy o droseddwyd i gyfrif, a sicrhau bod ein strydoedd a'n cymunedau yn fwy diogel.

Eto i gyd, mae'r cymorth sydd ar gael i ddiodefwyr yn aml yn ddarniog ac nid yw wedi'i gydgyssylltu ac, yn syml, mae'n bosibl nad yw'r cymorth sydd ei angen yn ddybryd ar ddiodefwyr ar gael yn lleol.

Fel y Gweinidog Dioddefwyr, rwyf yn benderfynol o unioni hyn. Ond bydd ond yn bosibl i hyn lwyddo os byddwn yn ariannu'r sector cymorth i ddiodefwyr yn fwy effeithiol, cynaliadwy ac mewn ffordd gydgyssylltiedig.

Mae'r Strategaeth Ariannu Dioddefwyr hon yn cyflwyno ein gweledigaeth ar sut y gellir ariannu a chomisiynu gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr yn well, a sicrhau cymorth o safon uchel i ddiodefwyr nawr ac yn y dyfodol.

Byddwn yn ariannu'r sector cymorth yn fwy strategol, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau cywir ar gael i ddiodefwyr. Ar yr un pryd, byddwn yn dileu'r rhwystrau at gael mynediad at wasanaethau cymorth – er enghraifft annog cynnig gwasanaethau o bell ochr yn ochr â gwasanaethau wyneb yn wyneb – er mwyn i ddiodefwyr allu cael mynediad bob amser at gymorth, lle bynnag y maent yn byw neu ba bynnag lefel o gymorth y gallai fod ei hangen arnynt. Byddwn yn sicrhau bod ffrydiau cyllid mor hygyrch â phosibl i bob gwasanaeth, er mwyn sicrhau nad yw gwasanaethau llai yn cael eu heithrio'n anfwriadol.

Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i gyllid aml-flwyddyn ar gyfer gwasanaethau craidd cymorth i ddiodefwyr – o leiaf £440 miliwn yn ystod y tair blynedd nesaf, er mwyn i sefydliadau allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a meithrin gallu i gefnogi hyd yn oed mwy o ddiodefwyr.

Ac, yn hanfodol, byddwn yn cyflwyno safonau comisiynu newydd ac yn sefydlu lefel ofynnol o ansawdd gwasanaeth, er mwyn i ddiodefwyr dderbyn y cymorth o safon uchel maent yn ei haeddu.

Ategir hyn gyda disgwyliad y bydd pob darparwr yn cyflawni canlyniadau craidd i ddiodefwyr: gwneud yn siŵr eu bod wedi meithrin gwytnwch i symud ymlaen, i deimlo'n fwy gwybodus, a derbyn cymorth pan maent ei angen.

Yn ogystal, bydd y Strategaeth Ariannu Dioddefwyr yn cael ei goruchwyllo gan fwrdd trawsbleidiol y Llywodraeth, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein nodau.

Yn yr etholiad diwethaf, addawodd y Llywodraeth i wneud yn llawer gwell ar ran dioddefwyr ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig iawn i'r addewid hwnnw.

Mae dioddefwyr yn haeddu cael eu cefnogi yn y ffordd gywir, ac ar yr adeg gywir, er mwyn iddynt allu symud ymlaen gyda'u bywydau.

Mae ein Strategaeth Ariannu Dioddefwyr yn cynrychioli cam hollbwysig ac ymarferol tuag at gyflawni hyn i bob dioddefwr.

Tom Pursglove AS

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder

Crynodeb Gweithredol

O dan y Cod Dioddefwyr¹, mae gan ddioddefwyr hawl i gael mynediad at wasanaethau cymorth sydd wedi'u teilwra ar gyfer eu hanghenion.

Gwyddom fod y cymorth cywir yn annog dioddefwyr i barhau â'u hachos drwy'r system cyfiawnder troseddol – dengys ymchwil fod dioddefwyr a dderbyniodd gymorth megis y gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA) 49% yn llai tebygol o dynnu yn ôl o ymchwiliad troseddol². Mae mynediad at gymorth priodol ar eu telerau hwy hefyd yn hollbwysig er mwyn i'r dioddefwyr allu dechrau ar y broses o adferiad.

Mae gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr yn cael eu hariannu a'u comisiynu gan asiantaethau amrywiol, gan gynnwys adrannau'r llywodraeth yn genedlaethol, a chomisiynwyr megis Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn lleol. Mae pob asiantaeth yn gyfrifol am benderfynu sut i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddyn nhw er mwyn gwella'r canlyniadau i ddioddefwyr yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol. Gall y trefniant anghyson hwn fod yn ddryslyd ac mae'n bosibl nad yw dioddefwyr bob amser yn gwybod lle i fynd neu sut i gael mynediad at y cymorth cywir iddynt hwy.

Mae'n bwysig bod y ddarpariaeth genedlaethol a lleol yn ategu ei gilydd er mwyn sicrhau gwasanaeth mor ddi-dor â phosibl i ddioddefwyr. Gellir ond dechrau cyflawni hyn os bydd adrannau'r llywodraeth a chomisiynwyr yn mabwysiadu prosesau cyllido a chomisiynu mwy cyson a chynaliadwy.

Bydd y Strategaeth Ariannu Dioddefwyr yn darparu fframwaith ar gyfer sut y dylai asiantaethau gydweithio i ddarparu'r adnoddau gorau i'r sector cymorth i ddioddefwyr. Bydd yn mynd i'r afael ag alinio cyllid ar draws adrannau'r llywodraeth, a'r rhwystrau at gyllid cynaliadwy ac ysgogi cysondeb ar draws y swyddogaeth gomisiynu. **Hefyd, ac yn bwysig, bydd y Strategaeth hon yn sicrhau y gall y llywodraeth fesur ac asesu effaith y cyllid a gomisiynir ganddynt yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr.**

Mae'r Strategaeth hon yn adeiladu ar y Strategaeth i Ddioddefwyr 2018 a'r cynnydd a wnaed ers hynny i gyllido a chomisiynu gwasanaethau i sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn cymorth priodol. Bydd y Strategaeth hon yn cael ei chyflawni drwy weithredu tri nod strategol:

Nod 1 – Ariannu'r sector cymorth i ddioddefwyr yn fwy strategol

Byddwn yn symleiddio prosesau cyllido, lle y bo'n briodol, i leihau natur gymhleth i dirlun i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i ddioddefwyr troseddau. Byddwn yn mabwysiadu dull gweithredu strategol ar draws yr adrannau hynny o'r llywodraeth sy'n gyfrifol am ariannu dioddefwyr a chomisiynu gwasanaethau cymorth. Yn benodol, bydd y llywodraeth yn ymrwymo i'r egwyddor o **ariannu aml-flwyddyn ar gyfer gwasanaethau craidd cymorth i ddioddefwyr**, gan sicrhau ein bod yn rhoi'r pwyslais priodol ar bwysigrwydd gwasanaethau cynaliadwy.

¹ [Cod Dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2020 \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

² Walker et al. "Rape, Inequality and the Criminal Justice Response in England: The Importance of Age and Gender."

Nod 2 – Dileu rhwystrau at fynediad

Byddwn yn cyflwyno **safonau comisiynu cenedlaethol**, ar draws yr holl wasanaethau cymorth i ddioddefwyr, er mwyn sicrhau ansawdd cymorth sylfaenol i bob dioddefwr. Byddwn yn sicrhau ein bod yn **adolygu ac yn diweddarau canllawiau comisiynu presennol ar draws y llywodraeth**, er mwyn iddynt adlewyrchu blaenoriaethau a chyllid wedi'u diweddarau. Bydd y safonau newydd hyn yn ategu'r ddyletswydd statudol ar y cyd ar asiantaethau perthnasol yn y Bil drafft i Ddioddefwyr a fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gydweithio wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth er mwyn sicrhau bod dioddefwyr trais rhywiol a domestig, a thrais difrifol yn derbyn y cymorth cydgysylltiedig sydd ei angen.

Nod 3 – Gweithredu canlyniadau clir a chyson

Byddwn yn cyflwyno **cyfres o fetrigau craidd** ar gyfer pob adran, comisiynu a gwasanaethau i gasglu, a **chyfres o ganlyniadau craidd** i gomisiynwyr a gwasanaethau gyflawni yn eu herbyn. Bydd hyn yn sicrhau, ar draws y llywodraeth, y gallwn ddatblygu llinell sylfaen gref ar gyfer mesur effaith a sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi dioddefwyr. Bydd y metrigau a chanlyniadau craidd hyn yn ffurfio'r sail ar gyfer y cyfeiriad yr ydym eisiau symud ymlaen ac maent wedi'u halinio â phrosiectau data ehangach ar draws y llywodraeth i wella'r ffordd yr ydym yn casglu a defnyddio data.

Yn olaf, byddwn yn cyflwyno sut y byddwn yn monitro cyflawniad y nodau hyn drwy strwythur llywodraethu cyllid dioddefwyr newydd.

Cyflwyniad

Gall darparu'r cymorth cywir i ddiodefwyr drawsnewid eu bywydau ar ôl i'r gwaethaf ddigwydd. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn ariannu'r sector cymorth i ddiodefwyr yn effeithiol ac effeithlon er mwyn rhoi'r hyder i holl ddiodefwyr troseddau y gallant gael mynediad at y cymorth cywir, pryd bynnag y byddant ei angen.

Dyna pam ein bod wedi datblygu'r Strategaeth Ariannu Dioddefwyr, oherwydd mae angen i ni ganolbwyntio mwy nac erioed o'r blaen ar beth rydym yn ei ariannu a sut yr ydym yn comisiynu gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr.

Ym mis Mai 2020, cynhaliodd y Prif Weinidog Uwchgynhadledd Niwed Cudd, lle cytunwyd bod angen alinio'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr yn well a'i wneud yn fwy cynaliadwy ar gyfer y sector cymorth. Mae costau sylweddol o beidio â chefnogi diodefwyr yn ddigonol - yn 2017, amcangyfrifwyd bod cam-drin domestig yn costio £66 biliwn³ i gymdeithas, ac amcangyfrifwyd bod trais rhywiol yn costio £12.2 biliwn⁴.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau alinio a chynaliadwyedd, cytunwyd y byddai Strategaeth Ariannu Dioddefwyr yn cael ei datblygu ar draws y llywodraeth, gan adeiladu ar y Strategaeth Flaenorol i Ddiodefwyr a gyhoeddwyd yn 2018, gydag ymrwymadau dilynol yn cael eu gwneud yn yr Adolygiad o Drais (cyhoeddwyd Mehefin 2021), y Strategaeth Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched (cyhoeddwyd Gorffennaf 2021) a'r Cynllun Mynd i'r afael â Cham-drin Domestig (cyhoeddwyd Mawrth 2022).

Gwnaed yr ymrwymiad hwn gyda'r pandemig yn gefndir iddo, lle gwelwyd cynnydd yn y galw am wasanaethau cymorth, yn arbennig ar gyfer diodefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol. O ystyried hyn, cymerodd y Llywodraeth gamau cyflym i sicrhau bod diodefwyr yn derbyn y cymorth gofynnol. Darparodd y Llywodraeth **£76 miliwn a mwy** o gyllid brys, a pharhaodd y lefel uwch hon o gyllid i gynyddu hyd at 2021/22, gyda'r Llywodraeth yn dyrannu **£300 miliwn** a mwy i barhau gydag adferiad y gwasanaethau hyn a chyflawni'r galw cynyddol. Roedd hyn yn cynnwys **£150.5 miliwn** a ddyrannwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr a thystion, a **£125 miliwn** a ddyrannwyd gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i awdurdodau lleol ar draws Lloegr, i gyflawni'r ddyletswydd statudol i ddarparu cymorth mewn llety diogel i ddiodefwyr cam-drin domestig a'u plant (a ddechreuodd ym mis Hydref 2021).

Mae'r cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau cymorth wrth i ni symud allan o'r pandemig wedi golygu bod mwy o gyllid nac erioed o'r blaen wedi'i ymrwymo ar gyfer diodefwyr. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi atgyfnerthu'n sylweddol y cymorth sydd ar gael i ddiodefwyr a thystion, drwy gynyddu'r cyllid i £185 miliwn erbyn 2024/25, sy'n cynrychioli cynnydd o 85% ar gyllidebau craidd ers 2020/21.

³ [The economic and social costs of domestic abuse \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

⁴ [The economic and social costs of crime \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

SWYDDOGOL SENSITIF

Er bod y cynnydd i'r cyllid wedi'i groesawu, i'r rhai sy'n comisiynu a chyflawni gwasanaethau, mae'r pandemig hefyd wedi amlygu heriau lluosog yn y ffordd y mae'r llywodraeth yn ariannu'r sector cymorth i ddiodefwyr ar hyn o bryd a'r gwahanol ffyrdd y gellid gwella prosesau er mwyn cyflawni canlyniadau gwell i ddiodefwyr.

Cwmpas

Mae'r Strategaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar ariannu a chomisiynu sy'n cefnogi diodefwyr troseddau, p'un a ydynt yn adrodd am y drosedd ai peidio. Nid yw hyn yn golygu na fyddai'r egwyddorion arfaethedig yn berthnasol mewn meysydd tebyg neu sy'n gorgyffwrdd, er enghraifft gwasanaethau i dystion a diodefwyr troseddau sifil. Rydym yn cydnabod bod angen ystyried ymhellach ar draws y llywodraeth sut y mae'r meysydd hyn yn croestorri er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y cymorth a gynigir i gefnogi pob diodefwyr a thyst, ond at ddibenion y Strategaeth hon, pan fyddwn yn cyfeirio at ddiodefwyr neu ooeswr, mae hyn yn golygu diodefwyr trosedd⁵.

Mae'r Strategaeth hon yn berthnasol i holl gomisiynwyr gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, adrannau'r llywodraeth yn Lloegr, Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yng Nghymru a Lloegr, awdurdodau lleol a Grwpiau Comisiynu Clinigol neu systemau Gofal Integredig.

Bydd y Strategaeth hon yn berthnasol i bob gwasanaeth a chomisiynydd gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr yn Lloegr, ac i asiantaethau sy'n cyflawni swyddogaethau neilltuedig sy'n gysylltiedig â throseddau, plismona a chyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddau Cymru. Mae Gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi'u datganoli yng Nghymru o dan y Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015⁶. Mae gan Weinidogion Cymru y pwerau i ddarparu cyllid a hefyd, arfer swyddogaethau gweinidogol gweithredol ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Nid yw'r Strategaeth hon yn cwmpasu'n uniongyrchol ar gyfer diodefwyr a goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Domestig sy'n cael eu hariannu a'u comisiynu gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar unrhyw feysydd sy'n gorgyffwrdd wrth i ni weithredu'r Strategaeth hon. Dylai cyrff datganoledig a sefydliadau lleol yng Nghymru gyfeirio at y Canllawiau Statudol sy'n gysylltiedig â Deddf 2015, yn ogystal â'r pecyn cymorth ar gyfer gwasanaethau o'r fath yng Nghymru⁷.

Mae unrhyw elfennau yn y Strategaeth hon sy'n cyfeirio at iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg yn berthnasol i Loegr yn unig. Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth wedi'u datganoli'n llwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

⁵ Fel y diffiniwyd yn [Cod Ymarfer ar gyfer Diodefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2020 \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

⁶ [Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\) 2015 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

⁷ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/canllawiau-statudol-ar-gyfer-comisiynu-gwasanaethau-vawdasv-yng-nghymru.pdf>

Gweledigaeth a Nodau Strategol

Beth yw'r weledigaeth ar gyfer ariannu dioddefwyr?

Dylai'r cymorth cywir fod ar gael i holl ddiodefwyr troseddau, pan fyddant ei angen. Mae hyn yn golygu bod angen i'r llywodraeth, comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau gydweithio i bennu prosesau ariannu clir, comisiynu yn effeithiol a darparu gwasanaethau cymorth o safon uchel.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, bydd y Strategaeth hon yn ceisio:

1. Ariannu'r sector cymorth yn fwy strategol

Bydd hyn yn golygu y bydd angen i adrannau gydweithio'n well i ymateb i'r galw a sicrhau bod gwasanaethau ar gael lle bynnag a phryd bynnag y bydd eu hangen. Bydd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel y brif adran sy'n gyfrifol am ddiodefwyr, rôl oruchwylio i sicrhau bod yr holl gyllid sydd ar gael i ddiodefwyr ar draws y llywodraeth yn cael ei alinio a'i gydgyssylltu. Bydd y nod hwn, a'r nodau eraill a gyflwynir yn y Strategaeth hon, yn cael eu gweithredu a'u monitro drwy fwrdd goruchwylio trawslywodraethol gydag adrannau perthnasol.

Mae adborth gan randdeiliaid wedi pwysleisio bod yr angen am gyllid aml-flwyddyn yn arbennig o bwysig i'r sector cymorth i ddiodefwyr. Bydd cyllid aml-flwyddyn yn ysgogi gwasanaethau cyson a chynaliadwy, a all fod yn hollbwysig i ddiodefwyr sy'n derbyn cymorth.

Dylai'r ystyriaethau allweddol i'r llywodraeth a chomisiynwyr wrth ddatblygu neu ddyrannu ffrydiau cyllid gynnwys:

- Pa ffrydiau cyllid sy'n cael eu creu ac at ba ddiben?
- Sut mae'r dyraniadau cyllid yn cydweithio a pha sefydliadau sy'n cael eu hystyried?
- Sut i feithrin capasiti a gwynwch o fewn y sector cymorth ac, os bydd angen cyllid yn y tymor byr, beth yw'r strategaeth adael er mwyn osgoi colli staff neu arbenigedd?

2. Dileu rhwystrau at fynediad

Dylai diodefwyr allu cael mynediad at gymorth pryd bynnag y maent ei angen. Mae'r pandemig wedi pwysleisio'r pwysigrwydd o feddu ar y capasiti a'r gallu i gynnig gwasanaethau digidol neu o bell i ddiodefwyr. Mae llawer o ddarparwyr gwasanaeth wedi addasu ac ehangu eu cynigion cymorth i sicrhau bod y ddarpariaeth hon wedi bod ar gael. Nid yw hyn yn tynnu oddi ar bwysigrwydd darpariaeth wyneb yn wyneb, ac ni ddylai lle mae diodefwyr yn byw eu rhwystro rhag cael mynediad at wasanaeth.

Y bobl sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf at gyfiawnder yn aml yw'r rhai sy'n fwyaf agored i niwed. Un mater allweddol yw sut i gefnogi diodefwyr sydd angen cymorth mwy arbenigol. Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ar y diodefwyr hyn y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael yn eu hardal leol, er enghraifft y rhai sy'n datblygu anhwylder straen ôl-drawmatig. Mae angen i arferion ariannu a chomisiynu ystyried beth yw'r ffordd orau i gyflawni'r anghenion hyn.

SWYDDOGOL SENSITIF

Mae hefyd yn bwysig ystyried sut mae sefydliadau neu wasanaethau cymorth yn gallu cael mynediad at gyllid; gwyddom nad oes gan sefydliadau llai a sefydliadau 'gan ac ar gyfer' yr adnoddau neu'r capasiti i gystadlu am gyllid, sy'n golygu ei bod yn anodd iddynt sicrhau cyllid llywodraeth ganolog a chyllid lleol.

Dylai'r prif ystyriaethau i'r llywodraeth a chomisiynwyr eu hystyried wrth ddatblygu neu ddyrannu ffrydiau cyllido gynnwys:

- Sut mae gwahanol anghenion yn cael eu hystyried yn y prosesau comisiynu, gan gynnwys rhai dioddefwyr ag anghenion cymhleth o ganlyniad i'r drosedd?
- Pa ddata a gesglir i nodi meysydd o alw ac angen?
- Pa ddata a gesglir ar sut mae gwahanol grwpiau dioddefwyr yn cael mynediad at wasanaethau?
- Sut yr ymgysylltwyd â grwpiau dioddefwyr neu arbenigwyr y sector wrth benderfynu pa wasanaethau y dylid eu comisiynu?
- A yw'r ffrydiau cyllido ar gael i bob defnyddiwr gwasanaeth, yn arbennig gwasanaethau llai a allai wynebu rhwystrau ychwanegol wrth wneud cais am gyllid?

3. Gweithredu canlyniadau clir a chyson

Dylai unrhyw gyllido a chomisiynu dderbyn cyfres glir o ganlyniadau er mwyn gallu mesur eu heffaith – a ydym wedi cyflawni'r hyn roeddem yn bwriadu ei wneud? Er nad yw'r Strategaeth hon yn darparu cyfres o ganlyniadau trosfwaol ar gyfer cyllido, dylai adrannau ystyried sut y gallant weithio gyda chomisiynwyr a darparwyr i benderfynu pa ganlyniadau penodol y dylid eu hystyried er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae angen ystyried sut y bydd unrhyw ganlyniadau yn cael eu mesur, sut y byddant yn ategu prosesau presennol, a sut y bydd y wybodaeth hon yn hysbysu penderfyniadau cyllido yn y dyfodol. Dylid rhannu'r wybodaeth hon gyda rhanddeiliaid er mwyn helpu i ddatblygu arfer gorau i ysgogi dealltwriaeth well o'r effaith rhwng asiantaethau.


Dylai'r ystyriaethau allweddol i'r llywodraeth a chomisiynwyr wrth ddatblygu neu ddyrannu ffrydiau cyllido gynnwys:

- A yw'r cyllidwr wedi ymgysylltu â'r comisiynwyr perthnasol a'r sector cymorth i ddatblygu canlyniadau ac amcanion y cyllid?
- Pa ganlyniadau sydd i'w cyflawni gyda'r cyllid?
- Sut mae gweithgarwch yn cael ei fonitro a beth yw'r dulliau o adrodd ar ganlyniadau?
- A yw'r canlyniadau yn gyraeddadwy ac yn gymesur â swm y cyllid a'r cyfnod ariannu?

Nod 1 – Ariannu'r sector cymorth yn fwy strategol

Rydym eisiau sicrhau bod ffrydiau a phrosesau ariannu cyson a chynaliadwy

Beth yw'r heriau?



[MoJ] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder [PCC] Comisiynydd Heddlu a Throseddau [ISVAs...] ISVA ac IDVA [Rape Support Fund] Cronfa Cymorth Trais Rhywiol [Domestic Abuse...] Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol [National Homicide...] Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau [National witness...] Gwasanaeth Tystion Cenedlaethol [SARC] SARC [DHSC] Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol [Spend to local...] Gwariant i awdurdodau lleol i ddarparu cymorth cam-drin domestig mewn llety diogel [DLUHC] Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau [Home Office] Swyddfa Gartref [Fraud] Twyll [Modern Day Slavery] Caethwasiaeth Fodern [Victims of Terrorism] Dioddefwyr Terfysgaeth [Domestic Abuse] Cam-drin Domestig [VAWG] VAWG**** [Hate Crime] Troseddau Casineb

SWYDDOGOL SENSITIF

* Cynghorydd Annibynnol Trais Rhywiol

** Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig

*** Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol

**** Trais yn Erbyn Menywod a Merched

Darperir cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr gan nifer o wahanol adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth. Darperir rhywfaint o'r cyllid yn uniongyrchol i ddarparwyr a gwasanaethau rheng-flaen gan y llywodraeth, tra bydd y gweddill yn cael ei gyfeirio drwy gomisiynwyr lleol, yn benodol Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, awdurdodau lleol a chomisiynwyr iechyd. Mae gwasanaethau ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru yn cael eu hariannu gan lywodraeth Cymru. O ystyried y tirlun cymysg hwn a'r trefniadau goruchwylio gwahanol, mae asiantaethau yn debygol iawn o gomisiynu mewn gwahanol ffyrdd, mewn gwahanol leoedd, sy'n gallu arwain at anghysondeb yn y ffordd yr ariennir gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr, a sut maent yn cael eu cyllido.

Y 3 her allweddol yw:

- **Cyllid blwyddyn unigol:** Yr her fwyaf a bwysleisiwyd gan ddarparwyr a chomisiynwyr yw cyllid blwyddyn unigol. Yn yr adroddiad ar y cyd gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) ac Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSP) ar ymchwilio ac erlyn achosion o dreisio (a gyhoeddwyd ar 24 Chwefror 2022)⁸, awgrymwyd bod y diffyg cyllid aml-flwyddyn yn golygu na all Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a darparwyr fuddsoddi'n briodol mewn gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr ar gyfer goroeswyr trais rhywiol. Gall cyllid tymor byr lesteirio hefyd ar y gallu i archwilio ymyriadau cymorth arloesol, hirdymor newydd, neu ehangu gwasanaethau.
- **Tirlun ariannu anghymesur a chymhleth:** Mae llawer o asiantaethau gwahanol yn gysylltiedig â chyllido'r tirlun gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr ar draws Cymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys comisiynwyr cenedlaethol, gan gynnwys adrannau'r llywodraeth, a chomisiynwyr lleol, gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, awdurdodau lleol a chomisiynwyr iechyd a chlinigol. Gall hyn fod yn ddryslyd i ddarparwyr wrth chwilio am gyllid sydd ar gael, yn arbennig ar gyfer gwasanaethau llai a gwasanaethau 'gan ac ar gyfer'.
- **Prosesau ariannu aneffeithiol a beichus:** Mae ymgysylltiad â darparwyr a chomisiynwyr lleol wedi dangos bod y prosesau presennol ar gyfer gwneud cais ar gyfer, a derbyn cyllid, yn gallu bod yn ddryslyd a beichus. Gall hyn arwain at sefyllfa lle mae darparwyr yn cael eu heithrio'n anfwriadol o gyfleoedd cyllido, neu ddewis peidio â gwneud cais am gyllid am nad oes ganddynt yr adnoddau staff i wneud cais, neu efallai y byddant o'r farn nad yw'r amser a dreulir ar y broses yn gymesur â'r swm o gyllid sydd ar gael.

⁸ [Criminal justice system continues to fail rape victims - HMICFRS \(justiceinspectorates.gov.uk\)](https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/criminal-justice-system-continues-to-fail-rape-victims/)

SWYDDOGOL SENSITIF

[Darparwr gwasanaeth: “Mae cael cyllid tymor byr a chontractau newydd yn golygu bod angen ailadrodd y broses cytundeb rhannu gwybodaeth gyda darparwyr newydd. Mae hyn yn cymryd llawer o amser cyflawni gwasanaeth gwerthfawr y gellir ei dreulio’n well yn cefnogi dioddefwyr heb rwystrau.”]

Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Elfen allweddol ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau hyn yw cydnabod pwysigrwydd cyllid aml-flwyddyn. Bydd argaeledd a chadarnhad cyllid tymor hwy yn arwain at gynaliadwyedd yn y sector cymorth i ddiodeffwyr ac yn galluogi i gomisiynwyr ymrwymo i ariannu gwasanaethau am gyfnod hwy.

CYLLID AML-FLWYDDYN ISVA AC IDVA

Yn 2021, ymrwymodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gronfa Cynghorydd Annibynnol Trais Rhywiol (ISVA) a Chynghorydd Annibynnol Trais Domestig (IDVA) (sydd wedi'i ymestyn hyd at 2024/25 erbyn hyn) er eu bod mewn cyfnod Adolygiad o Wariant blwyddyn unigol. Gwyddom y byddai sefydliadau'n cael anhawster i gadw staff o ganlyniad i'r ansicrwydd ynghylch ariannu, ac roeddem eisiau gwneud yn siŵr y gallai diodeffwyr barhau i dderbyn y cymorth oedd ei angen arnynt gyda rhywun a oedd yn gyfarwydd iddynt.

Mae'r gallu i ymrwymo i'r cyllid hwn y tu hwnt i un flwyddyn ariannol wedi helpu i sicrhau bod 700 a mwy o ISVA ac IDVA ar gael, ac yn parhau i fod ar gael ar gyfer y rhai sydd eu hangen. Yng nghyllideb 2021, mae'r cyllid hwn wedi'i ymestyn am dair blynedd bellach gyda recriwtio ychwanegol i gynyddu'r ddarpariaeth i 1,000 a mwy o swyddi erbyn 2024/25.

Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i'r egwyddor o gyllid aml-flwyddyn ar gyfer gwasanaethau craidd cymorth i ddiodeffwyr. Bydd pob adran yn Lloegr sydd â chyfrifoldeb dros ariannu diodeffwyr yn ymrwymo i gyllid aml-flwyddyn pan fydd hynny'n bosibl a phriodol. Ar 25 Mawrth 2022, fe ymrwymodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i **£147 miliwn y flwyddyn** hyd at 2024/25 ar gyfer gwasanaethau craidd. Mae'n ofynnol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau drosglwyddo'r ymrwymiad cyllid aml-flwyddyn i'r gwasanaethau lleol a gomisiynir ganddynt fel y bo'n briodol, i sicrhau bod darparwyr rheng-flaen yn derbyn y buddiannau llawn. Bydd hyn yn golygu buddsoddiad aml-flwyddyn o **£440 miliwn** o leiaf yn ystod y cyfnod tair blynedd hwn.

Yn y Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig yn y Cartref diweddar (a gyhoeddwyd 30 Mawrth 2022), ymrwymodd y Swyddfa Gartref i'r un egwyddor aml-flwyddyn ar gyfer sefydliadau sy'n cefnogi diodeffwyr a goroeswyr cam-drin domestig yn Lloegr. Bydd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn parhau i ariannu awdurdodau lleol yn Lloegr yn y dyfodol i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â Rhan 4 y Ddeddf Cam-drin Domestig (2021).

[Darparwr gwasanaeth: “Mae'r diogelwch o gael contract aml-flwyddyn yn ein galluogi i ganolbwyntio ar gyflawni gwasanaeth o safon, cyflawni gwelliannau ac

SWYDDOGOL SENSITIF

arloesedd parhaus yn hytrach na gorfod bod mewn cylch cystadleuol o wneud cais am gyllid.”]

Sefydlir bwrdd gweinidogol traws-lywodraethol i atgyfnerthu'r gwaith o oruchwylio'r broses ariannu dioddefwyr a chomisiynu. Bydd y lefel uwch o graffu yn helpu i sicrhau nad yw cyllid yn cael ei ddyblygu, a'n bod yn gallu nodi unrhyw fylchau mewn gwasanaethau, a mynd i'r afael â hwy. Bydd hefyd yn golygu y bydd adrannau'r llywodraeth yn cydweithio'n well, gan gydgysylltu ffrydiau cyllido a chasglu a rhannu gwybodaeth i ddangos effaith y cyllid.

Ar draws y llywodraeth, byddwn yn sicrhau bod ffrydiau cyllido yn hygyrch i'r gwasanaethau perthnasol sydd eisiau cael mynediad atynt. Rydym yn cydnabod y gallai gwasanaethau llai, sydd wedi'u teilwra gael anhawster i wneud cais am ffrydiau cyllido cenedlaethol pan fydd y broses yn gymhleth neu'n llafurus. Bydd adrannau'r llywodraeth yn teilwra ceisiadau er mwyn adlewyrchu'r cyllid sydd ar gael a sicrhau y caniateir amser digonol, pan fo'n bosibl, i ddarparwyr wneud cais hyd eithaf eu gallu, a sicrhau'r un pryd bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithiol.

Nod 2 – Dileu rhwystrau at fynediad

Rydym eisiau sicrhau bod dioddefwyr yn gallu cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt mewn ffordd sy'n gweithio iddynt hwy.

Mae'n hollbwysig bod pob dioddefwr trosedd yn derbyn y cymorth cywir i'w galluogi i ymdopi, meithrin gwytnwch a symud ymlaen yn eu bywydau, pan fyddant yn barod i wneud hynny. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen dull effeithiol a chyson o gomisiynu gwasanaethau.

Beth yw'r heriau?

Y 3 her allweddol yw:

- **Dim digon o graffu ar gomisiynu:** Mae'n ofynnol i gomisiynwyr lleol adrodd yn ôl i'r llywodraeth ar effaith a buddiannau'r gwasanaethau a gomisiynir ganddynt; fodd bynnag, mae'r adrodd hwn yn amrywio yn ôl gofynion adrannol a symiau'r cyllid. Mae hyn yn creu darlun anghyflawn neu anghywir o effaith cyllid. Gallai hefyd awgrymu nad yw comisiynwyr yn cael eu dwyn i'r un safon ar gyfer y cyllid maent yn gyfrifol amdano.
- **Argaeledd gwasanaethau:** Mae adborth gan y sector cymorth i ddiodefwyr wedi dangos problem benodol o ran argaeledd anghyson, ac ansawdd, y cymorth ar draws Cymru a Lloegr, gyda rhestrau aros llawn ar gyfer llawer o wasanaethau. Gall hyn fod yn bryder penodol i wasanaethau wedi'u teilwra. Pan fydd poblogaeth fach o ddiodefwyr ag angen penodol – er enghraifft, diodefwyr anabl, mae'n bosibl na fydd unrhyw wasanaethau wedi'u teilwra ar eu cyfer yn eu hardal leol. Mae'n briodol bod gwasanaethau'n cael eu teilwra ar sail anghenion poblogaeth yr ardal leol, ond gall hyn olygu weithiau nad yw gwasanaethau penodol, wedi'u teilwra ar gael.
- **Hygyrchedd gwasanaethau:** Gall hygyrchedd olygu y gallu i gael mynediad at wasanaeth cymorth unigol (er enghraifft, argaeledd darpariaeth o bell neu ddarpariaeth ddigidol), neu gall olygu gallu grwpiau diodefwyr gwahanol i gael mynediad at yr un lefel o wasanaeth. Gall diffyg hygyrchedd fod yn ddifrifol iawn i nifer o grwpiau diodefwyr, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig, y rhai mewn lleoliadau carchar, a'r rhai sy'n fwy tebygol o gael mynediad at wasanaethau 'gan ac ar gyfer'⁹.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Rydym yn cyflwyno pum safon gomisiynu genedlaethol y disgwylir i bob comisiynydd gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr cenedlaethol a lleol eu cyflawni.

⁹ Gwasanaethau arbenigol sy'n cael eu harwain, eu dylunio a'u cyflawni gan ac ar gyfer y defnyddwyr a'r cymunedau maent yn ceisio eu gwasanaethu (er enghraifft, diodefwyr a goroeswyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, diodefwyr byddar ac anabl a diodefwyr LGBT).

1. Dioddefwyr yn ganolog i'r comisiynu

Dylai dioddefwyr fod yn ganolog ym mhob penderfyniad a wneir gan gomisiynydd neu ddarparwr gwasanaethau. Mae gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion dioddefwyr, ac sy'n gallu ymateb yn hyblyg ac mewn ffordd sensitif i anghenion unigryw dioddefwyr, yn hollbwysig er mwyn darparu'r cymorth mwyaf effeithiol i ddioddefwyr.

I gyflawni'r safon hon, bydd comisiynwyr yn:

- Annog cyfranogiad dioddefwyr ar bob cam o'r broses gomisiynu, gan gynnwys siapio amcanion neu ddangosyddion perfformiad ar gyfer gwasanaethau. Po fwyaf yw ymgysylltiad y dioddefwr, y mwyaf addas fydd y gwasanaethau i gyflawni eu hanghenion.
- Comisiynu'r gwasanaethau priodol mewn ymateb i anghenion dioddefwyr, y gellir eu nodi gan ddefnyddio asesiadau o anghenion a dulliau lleol eraill. Disgwylir i gomisiynwyr ddarparu cyfiawnhad o'u penderfyniadau comisiynu.
- Sicrhau bod asesiadau anghenion yn cynnwys yr holl ddata angenrheidiol i gomisiynu gwasanaethau priodol, gan gynnwys i ddioddefwyr ag angen wedi'i deilwra. Dylid cynnal asesiadau o anghenion lleol yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod anghenion dioddefwr yn cael eu cyflawni'n gyson.
- Meithrin dealltwriaeth o'u hardal leol drwy'r data a'r dystiolaeth sydd ar gael, gan ddefnyddio hyn i nodi pa grwpiau neu gymunedau sy'n anoddach eu cyrraedd – gan gynnwys y rhai nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau ar hyn o bryd, neu sydd â llai o fynediad at gymorth presennol.
- Sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddyledus i ddiogelu defnyddwyr gwasanaeth ym mhob gwasanaeth.
- Adlewyrchu'r arferion gorau a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig, yn arbennig ynghylch sut y gall prosesau comisiynu gael eu haddasu neu fod yn hyblyg i angen brys.

2. Dull agwedd gyfan at gomisiynu

Nid yw taith y dioddefwr yn llinol ac nid oes un ffordd i rywun ymgysylltu â gwasanaethau cymorth. Cyn belled ag y bo modd, dylai asiantaethau gydweithio i leihau'r angen i ddioddefwyr orfod rhannu eu profiadau sawl tro. Dylent hefyd ystyried taith gyfan y dioddefwr, o'r cam adrodd (os byddant yn dewis gwneud hynny) i'r cam ôl-ddedfrydu (os yw'n berthnasol). Dylid symleiddio'r daith, cymaint â phosibl, mewn ardaloedd lleol drwy greu llwybrau cyflawn dioddefwyr a hybu'r broses o rannu data.

I gyflawni'r safon hon, bydd comisiynwyr yn:

- Gweithio gyda chomisiynwyr ac asiantaethau eraill yn eu hardal i gytuno ar yr hyn sydd ei angen yn lleol ac i sicrhau bod y gwahanol asiantaethau a allai fod yn cefnogi unigolion yn gwneud hynny mewn ffordd sensitif a chydgyssylltiedig – gan ystyried gofynion angenrheidiol fel rhan o unrhyw ddyletswyddau

SWYDDOGOL SENSITIF

statudol perthnasol. Dylai partneriaethau gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, awdurdodau lleol, Grwpiau Comisiynu Clinigol neu Systemau Gofal Integredig, a chomisiynwyr, asiantaethau a darparwyr lleol eraill.

- Cynnwys sefydliadau nad ydynt yn cael eu hariannu eisoes gan y comisiynwyr – er enghraifft elusennau, ymddiriedolaethau, sefydliadau gwirfoddol ac fel arall. Bydd gan y sefydliadau hyn arbenigedd a dealltwriaeth o'r sector cymorth, a gellir defnyddio hyn i helpu i hysbysu'r broses o ddatblygu gwasanaethau, hyd yn oed os nad ydynt yn gwneud cais am gyllid.
- Cyfathrebu a chydweithio gyda phartneriaid er mwyn atal gweithgarwch dyblygu gwasanaethau, gan gydnabod y bydd comisiynwyr cenedlaethol a lleol yn pennu cyfeiriad strategol ar gyfer y gwasanaethau a gomisiynir ganddynt, ac y dylai hyn ategu ei gilydd.
- Ymgysylltu proses o rannu data a gwybodaeth rhyngddynt eu hunain a gwasanaethau mewn ardal leol, gyda'r disgwyliad y bydd asiantaethau yn Lloegr yn eistedd ar o leiaf un bwrdd partneriaeth lleol gydag eitem sefydlog ar yr agenda ar y gwasanaethau cymorth i ddiodefwr.¹⁰
- Ymgysylltu i gydweithio ar draws ffiniau gwasanaethau lleol, er mwyn adlewyrchu'r wybodaeth bod diodefwr yn symud rhwng ardaloedd ond nad ydynt bob amser yn derbyn yr un lefel o gymorth.

Gan adeiladu ar y safonau hyn, fel rhan o'r Bil Dioddefwyr i ddod, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno dyletswydd i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau, awdurdodau lleol a Byrddau Gofal Integredig yn Lloegr gydweithio'n lleol wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth ar gyfer diodefwr cam-drin domestig, trais rhywiol a throseddau difrifol eraill. Bydd hyn yn hwyluso cymorth a chomisiynu mwy effeithiol a chydgyssylltiedig ar lefel leol.

3. Dioddefwyr yn derbyn mynediad cyfartal at wasanaethau

Dylai pob diodefwr allu cael mynediad at gymorth priodol yn seiliedig ar eu hanghenion yn deillio o fod yn ddiodefwr trosedd¹¹. Gwyddom hefyd y gallai fod angen gwasanaethau wedi'u teilwra ar rai diodefwr, a bod yn well ganddynt dderbyn y rhai a fydd yn deall yn well gyd-destun diwylliannol a chymdeithasol eu camdriniaeth¹².

Bydd y safon hon yn annog comisiynwyr i sicrhau bod gwasanaethau yn ymatebol i'r bobl maent yn eu cefnogi, gan nodi a mynd i'r afal â rhwystrau at gymorth a hyrwyddo cynigion gwasanaeth ar draws eu hardal leol – yn benodol i ddiodefwr ag anghenion arbenigol nad ydynt yn ymwybodol o bosibl bod gwasanaethau wedi'u teilwra ar gael yn eu hardal.

¹⁰ Nid yw hyn yn cynnwys Byrddau Partneriaeth Cam-drin Domestig Lleol, sy'n ofyniad statudol i asiantaethau sy'n gysylltiedig â darparu cymorth cam-drin domestig i ddiodefwr a'u plant mewn llety diogel.

¹¹ Roedd diodefwr a oedd yn derbyn cymorth arbenigol 49% yn llai tebygol o dynnu yn ôl o ymchwiliad troseddol. Walker et al. "Rape, Inequality and the Criminal Justice Response in England: The Importance of Age and Gender."

¹² GALOP. "Commissioning for Inclusion: Delivering services for LGBT+ survivors of domestic abuse."

SWYDDOGOL SENSITIF

Er mwyn cyflawni'r safon hon, bydd comisiynwyr yn:

- Sicrhau bod asesiadau anghenion yn cynrychioli'r ystod amrywiol o gymorth sydd ei angen mewn unrhyw ardal leol – gan gynnwys dioddefwyr ag angen arbenigol, dioddefwyr â gofynion o ran mynediad (gan gynnwys gwahaniaethau ieithyddol neu anabledd), a throseddwyr sydd hefyd yn ddiodesddefwyr, a allai fod angen cymorth yn y carchar neu fel arall.
- Cyn belled ag y bo'n bosibl, nodi a mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal diodesddefwyr rhag defnyddio'r gwasanaethau y mae ganddynt hawl i'w derbyn, gan ystyried diodesddefwyr ag anabledd neu ddiodesddefwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.
- Cyn belled ag y bo modd, nodi a mynd i'r afael â phroblemau gyda llwybrau cyfeirio, yn arbennig ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc yn dilyn trais domestig neu gam-drin domestig.
- Annog gwasanaethau i hyrwyddo eu hunain i'r cymunedau maent yn eu cefnogi.
- Sicrhau bod ceisiadau ar gyfer ffrydiau cyllid yn hygyrch, yn arbennig i sefydliadau llai neu sefydliadau 'gan ac ar gyfer'.
- Sicrhau nad yw gwasanaethau yn gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr gwasanaeth a staff a bod ganddynt brosesau sydd wedi'u hyrwyddo'n dda ar waith i ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau posibl.

4. Dulliau clir a chyson ar gyfer adrodd a gwerthuso

Mae'r safon hon yn canolbwyntio ar bwysigrwydd casglu'r data cywir a dwyn y gwasanaethau i gyfrif. Bydd y data cywir yn ein galluogi i weld effaith ein cyllid a helpu i sicrhau ein bod yn targedu cyllid lle mae'r angen mwyaf. Mae gwerthuso cyson yn ein galluogi i weld unrhyw broblemau gyda gwasanaethau, yn ogystal ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth.

Bydd y safon hon yn cefnogi gofynion clir ar gyfer adrodd, gan gynnwys esbonio pam mae'r data yn cael ei gasglu. Bydd yn annog defnydd rheolaidd o'r metrigau craidd a'r canlyniadau a ddarparwyd fel rhan o'r Strategaeth hon, ac edrych ar sut y gellir alinio'r dulliau adrodd yn well ar draws y llywodraeth er mwyn lleihau'r baich ar ddarparwyr.

I gyflawni'r safon hon, bydd comisiynwyr yn:

- Cydymffurfio â'r lefel arfaethedig o adrodd a metrigau. Pan nodir gofynion newydd, byddwn yn ymgynghori â chomisiynwyr lleol a'r sector cymorth i ddiodesddefwyr ar unrhyw newidiadau cyn eu gweithredu.
- Cyn belled ag y bo'n bosibl, sicrhau ac annog casglu data demograffeg a chydaddoldeb y diodesddefwyr sy'n cael eu cefnogi.
- Sicrhau bod llwybrau uwchgyfeirio mewn achos o berfformiad annerbyniol yn cael eu rhannu gyda darparwyr, gan gynnwys adrodd yn ôl i'r llywodraeth ganolog.

SWYDDOGOL SENSITIF

- Darparu amserlenni clir ar adrodd ac uwchgyfeirio os bydd perygl i wasanaethau fathu, er mwyn osgoi unrhyw doriad yn y ddarpariaeth gwasanaeth.
- Sicrhau bod dealltwriaeth glir a chyffredinol o beth yw llwyddiant ar ddechrau gwasanaeth. Bydd hyn ar ffurf canlyniadau clir a dangosyddion perfformiad.
- Sicrhau bod cynlluniau gwerthuso wedi'u cynnwys mewn unrhyw gontractau neu grantiau a'u bod yn cael eu hesbonio'n glir i ddarparwyr. Asesir gwasanaethau ar eu heffaith a'u budd i ddioddefwyr.

5. Hyrwyddo cyllid cynaliadwy

Mae'r safon hon yn cydnabod gwerth ymrwymadau cyllid aml-flwyddyn ac yn sefydlu'r rhain fel arfer gorau, er mwyn gwella cymorth i ddioddefwyr. Hefyd, mae'n edrych ar ffyrdd eraill o atgyfnerthu cynaliadwyedd yn y sector, gan gynnwys sicrhau bod y prosesau ar gyfer gwneud cais am gyllid yn gymesur, a bod ffynonellau cyllido niferus, gan gynnwys sefydliadau ac ymddiriedolaethau yn cael eu hystyried ochr yn ochr â chyllid llywodraeth ganolog.

I gyflawni'r safon hon, bydd comisiynwyr yn:

- Trosglwyddo ymrwymadau cyllid aml-flwyddyn i'w darparwyr, er mwyn annog sefydlogrwydd yn y sector.
- Sicrhau, pan gynigir cyllid trawsnewidiol neu arloesedd¹³, bod strategaeth adael glir a sensitif ar waith.
- Annog cadw staff profiadol er mwyn osgoi colli gwybodaeth.
- Annog a hyrwyddo chwilio am ffynonellau cyllido lluosog ar gyfer gwasanaethau, gan gynnwys argaeledd cyllid o sefydliadau ac ymddiriedolaethau.
- Sicrhau bod y prosesau ar gyfer gwneud cais am ffrydiau cyllid yn gymesur i'r swm o gyllid sydd ar gael, a bod y broses ar gyfer gwneud cais am gyllid yn gyson ar draws symiau cyllido cymaradwy.

Mae'r safonau hyn yn alinio â'r egwyddorion a nodir yn Strategaeth Mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched y Swyddfa Gartref a'r Cynllun Mynd i'r afael â Cham-drin Domestig, yn ogystal â safonau eraill. Maent hefyd yn gweithio ochr yn ochr â chanllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol perthnasol yn Lloegr sy'n cydfynd â dyletswydd llety diogel y Ddeddf Cam-drin Domestig (2021) – gan bwysleisio'n benodol bwysigrwydd gwaith aml-asiantaeth.

Bydd ymlyniad at y safonau hyn yn cael ei ymgorffori yn y trefniadau cyllido presennol gyda chomisiynwyr a darparwyr, gyda gwaith yn parhau i ystyried y ffordd orau i fonitro gweithrediad a chydymffurfiaeth. Cafodd y safonau hyn eu creu i sicrhau y dylai pawb dderbyn safon gytunedig o gymorth, lle bynnag y maent yn byw. Rydym yn annog pob comisiynydd i fabwysiadu'r safonau hyn a'u defnyddio mewn cydweithrediad ac

¹³ Mae cronfa drawsnewidiol neu arloesedd yn unrhyw ffrwd gyllido sydd â'r diben o greu neu brofi ymyriadau cymorth newydd gyda chyllid tymor byr wedi'i ymrwymo.

SWYDDOGOL SENSITIF

yn unol ag unrhyw ofynion cyfreithiol a safonau a chanllawiau eraill sy'n bodoli ar gyfer y sector cymorth i ddioddefwyr, gan gynnwys :

- Canllawiau Comisiynu Cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig y Weinyddiaeth Gyfiawnder;
- Datganiad Cenedlaethol o Ddisgwyliadau Trais yn Erbyn Menywod a Merched y Swyddfa Gartref a'r Pecyn Offer Comisiynu atodol;
- Canllawiau statudol yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar gymorth cam-drin domestig mewn llety diogel;
- Y Canllawiau Statudol ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru.

Bydd y safonau hyn yn cynorthwyo comisiynwyr i sicrhau bod y gwasanaethau yn effeithiol ac yn cyrraedd cymaint â phosibl o ddioddefwyr. Yn dilyn eu cyhoeddi, disgwyliwn i unrhyw safonau newydd ar gyfer mathau penodol o droseddau ystyried y rhain wrth iddynt gael eu datblygu.

Bydd canllawiau presennol yn cael eu hadolygu, a bydd y Strategaeth hon yn cael ei diweddarau pan fydd angen.

Nod 3 – Gweithredu canlyniadau clir a chyson

Rydym eisiau sicrhau bod dulliau clir a chyson i fonitro a gwerthuso beth sy'n cael ei ariannu a'i effaith.

Un o elfennau pwysicaf sicrhau bod y llywodraeth yn darparu'r gwasanaethau cywir yw gallu monitro eu heffaith. Bydd yr oruchwyliaeth gywir yn ein galluogi i wybod faint o ddiodefwyr yr ydym yn eu cefnogi, sut yr ydym yn eu cefnogi ac, yn bwysicaf, lle y gallwn wella. Bydd proses fonitro effeithiol yn darparu tystiolaeth i ddangos a yw'r canlyniadau'n cael eu cyflawni, a sut, ac yn darparu sicrwydd bod cyllid yn cael yr effaith y bwriadwyd iddo ei gael.

Beth yw'r heriau?

Y 3 her allweddol yw:

- **Anghysondeb a thryloywder wrth adrodd a data:** Mae ymgysylltiad gyda'r sector cymorth i ddiodefwyr a chomisiynwyr lleol wedi amlygu gwahaniaethau rhwng sut mae adrannau a chomisiynwyr yn casglu data ac yn mesur canlyniadau gwasanaethau. Mae'n bosibl nad yw gofynion adrodd bob amser yn gymesur â'r swm o arian a ddarparwyd, a gallai'r amserlen ar gyfer adrodd fod yn fyr a dwys. Mae'r diffyg data safonol yn ei gwneud yn anos cymharu a chyferbynnu gwasanaethau a chadarnhau bod ymyriadau cymorth yn gweithio.
- **Dealltwriaeth gyfyngedig iawn o effaith y cyllid:** Mae'r gwahaniaethau yn y data a gasglwyd yn arwain at ddealltwriaeth wael o effaith y cyllid sy'n cael ei ddarparu. Mae'r anghysondeb wrth gasglu a'r diffyg rhannu data ar lefel genedlaethol a lleol yn ei gwneud yn anodd nodi tueddiadau yn y cymorth gofynnol, sy'n golygu y bydd yn fwy tebygol y bydd y llywodraeth yn methu meysydd hollbwysig y mae angen cyllid yn benodol ar eu cyfer. Mae hefyd yn anodd nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth, neu i weld lle y gellir gwneud gwelliannau mewn meysydd penodol, neu mewn ymateb i fathau penodol o droseddau.
- **Defnydd isel iawn o ddata ansoddol:** Er bod angen gwella'r dulliau o gasglu data yn gyffredinol, mae'r data presennol a gesglir yn ddata rhifol yn bennaf. Er bod y math hwn o ddata yn ddefnyddiol ar gyfer deall pwy sy'n defnyddio'r gwasanaethau, nid yw'n adlewyrchu gwerth neu ddiffyg gwerth y cymorth hwn i ddiodefwyr. Er ei bod yn anos casglu data ansoddol, oherwydd bydd yn amrywio o ddiodefwyr i ddiodefwyr, mae'n wybodaeth allweddol a fydd yn ein galluogi i weld beth sy'n gweithio er mwyn i ni allu cyllido a chomisiynu yn unol â hynny. Mae data ansoddol yn ddefnyddiol i ddangos lle mae darparwr yn cyflawni angen diodefwyr, a bod taith y diodefwyr yn cael blaenoriaeth.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Byddwn yn cyflwyno cyfres o ganlyniadau craidd ar yr holl gyllid sy'n cael ei ddarparu gan y llywodraeth ar gyfer diodefwyr. Mae sefydlu canlyniadau yn rhan

SWYDDOGOL SENSITIF

bwysig o'r broses gomisiynu – bod yn glir ynghylch beth sy'n cael ei ddarparu a pham. Maent hefyd yn galluogi i gomisiynwyr fonitro effaith y cyllid sy'n cael ei ddarparu, i weld beth yw manteision y cyllid a mynd i'r afael â phroblemau neu fylchau pan fyddant yn dod i'r amlwg.

Mae yna ddogfennau canllaw eisoes ar gael sy'n disgrifio'r canlyniadau rydym eisiau eu cyflawni i ddiodeffwyr. Nid ydym yn cynnig y bydd y canlyniadau craidd newydd yn disodli unrhyw beth a ddefnyddir yn awr, nac ychwaith mai'r rhain yw'r unig ganlyniadau y dylai gwasanaethau weithio tuag atynt. Fodd bynnag, dylai'r canlyniadau craidd hyn fod yn **llinell sylfaen canlyniadau disgwylidiedig** y dylai pob gwasanaeth fod yn adrodd arnynt ac yn alinio yn eu herbyn. Gellir eu teilwra hefyd i gydfodoli â fframweithiau sydd eisoes ar waith, ac rydym yn annog comisiynwyr i weithio gyda gwasanaethau fel rhan o'r broses gomisiynu i wneud hynny.

Mae'r strategaeth yn cynnig **tri chanlyniad craidd ac un canlyniad dewisol ychwanegol**. Mae'r pedwerydd yn ddewisol i gydnabod na fydd pob diodeffwr yn dewis ymgysylltu â'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r canlyniadau craidd hyn wedi'u hamlinellu isod, gyda manylion pellach yn Atodiad A ar enghreifftiau o sut i fesur y canlyniad:

1. *Ymdopi a meithrin gwytnwch i symud ymlaen gyda bywyd o ddydd i ddydd.*
2. *Teimlo'n fwy gwybodus*
3. *Wedi derbyn yr holl gymorth oedd ei angen arnynt, pan oeddent ei eisiau.*
4. *Ymgysylltiad uwch gyda'r system cyfiawnder troseddol (ychwanegol).*

Byddwn yn gweithredu cyfres o fetrigau ansoddol craidd (a nodir yn Atodiad B) y disgwylir i bob comisiynydd a gwasanaeth eu casglu.

Mae'r metrigau arfaethedig wedi'u rhannu'n ddau gategori cyffredinol: gwybodaeth am y nodweddion sy'n sail i gymorth y diodeffwr, gan gynnwys oedran, hunaniaeth rhywedd ac ethnigrwydd; a gwybodaeth am y galw am wasanaeth cymorth, gan gynnwys rhestrau aros a faint o ddiodeffwyr sy'n cael cymorth yn y cyfnod adrodd. Mae'n bosibl na fydd rhai o'r diffiniadau yn gyson ar draws yr holl wasanaethau; fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn gallu casglu'r data ar draws y llywodraeth yn yr un ffordd, i'n galluogi i sefydlu sylfaen dystiolaeth o angen a galw ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddiodeffwyr¹⁴. Y metrigau ansoddol craidd hyn yw'r man cychwyn a byddwn yn parhau i'w datblygu wrth i ni greu darlun o effaith cyllid y llywodraeth. Byddwn yn gweithio'n agos gydag adrannau eraill y llywodraeth a chomisiynwyr i sicrhau y gellir casglu'r metrigau hyn, yn arbennig pan fydd systemau casglu data gwahanol yn cael eu defnyddio. Er mai metrigau meintiol craidd arfaethedig sydd gennym, dylai comisiynwyr a gwasanaethau gasglu metrigau ansoddol hefyd, am eu bod yn darparu gwerth gwyh wrth fesur taith diodeffwr. Disgwylwn i gomisiynwyr a gwasanaethau ddefnyddio data ansoddol i ategu'r ffordd maent yn mesur neu'n arddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau craidd.

¹⁴ Wrth weithredu'r rhain, rydym yn cydnabod nad oes rheidrwydd ar ddiodeffwyr i ddarparu data personol neu sensitif i wasanaethau, yn benodol os ydynt yn credu eu bod yn parhau i fod mewn perygl.

SWYDDOGOL SENSITIF

Nid ydym yn credu ei bod yn briodol pennu pa ddata ansoddol y dylid ei gasglu, oherwydd bydd hyn yn ddibynnol ar y gwasanaeth, a dylid datblygu hyn gyda'r defnyddwyr gwasanaeth, ac ystyried sut y bydd dioddefwr yn dymuno rhannu eu hadborth. Fodd bynnag, rydym wedi cyflwyno rhai enghreifftiau o sut y gallai comisiynwyr neu ddarparwyr gwasanaeth gasglu'r math hwn o wybodaeth yn Atodiad B.

Yn ogystal, fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad a'r ymateb i'r Bil Dioddefwyr, **rydym yn ystyried ffyrdd eraill i'r llywodraeth a sefydliadau gasglu safbwyntiau dioddefwyr ac adborth yn fwy cyffredinol.**

Gweithredu a Goruchwylio

Mae cyhoeddi'r Strategaeth hon yn cynrychioli'r cam ymarferol cyntaf tuag at sicrhau bod y llywodraeth yn cefnogi dioddefwyr yn effeithiol drwy ddarparu cyllid i'r sector cymorth mewn dulliau mwy strategol. Bydd hyn yn arwain at wasanaethau mwy cynaliadwy ac yn sicrhau y gall dioddefwyr barhau i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, pan fyddant eu hangen. Bydd hefyd yn golygu y gall y llywodraeth ddangos sut mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus i gyflawni canlyniadau gwell i ddioddefwyr.

Mae'n bwysig bod y ffordd y mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi yn newid ac yn esblygu wrth i ni ddysgu mwy am y ffordd mwyaf effeithiol o ddarparu'r hyn sydd ei angen. Felly, rydym eisiau i'r Strategaeth hon fod yn hyblyg a chyfrifol **ac rydym yn ymrwymo i'w adolygu ar adegau priodol**, gan sicrhau ei bod yn parhau yn weithredol a pherthnasol.

Llywodraethu

Mae llwyddiant y Strategaeth yn ddibynnol ar ei gweithrediad effeithiol. Bydd bwrdd goruchwylio traws-lywodraethol yn cael ei sefydlu i graffu ar y strategaeth, o dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Dioddefwyr. Bydd hyn yn uno adrannau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys comisiynwyr a chynrychiolwyr y sector cymorth lle y bo'n briodol, i sicrhau herio a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Strategaeth hon.

Atodiad A – Canlyniadau craidd

Dylid casglu data ac adborth gan ddiodefwyr ar hyd eu hymgysylltiad â'r gwasanaeth cymorth, ac nid dim ond ar ddechrau neu ddiwedd eu cymorth. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i dderbyn data o'r safon uchaf ar effaith y gwasanaethau cymorth, a sicrhau bod adborth yn parhau i gael ei gasglu gan ddiodefwyr a allai dynnu yn ôl o'r gwasanaethau yn gynharach na'r disgwyl.

- 1. Ymdopi a meithrin gwytnwch i symud ymlaen gyda bywyd o ddydd i ddydd –* Mae'r canlyniad hwn yn gysylltiedig â sicrhau bod diodefwyr wedi derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i symud ymlaen yn y pen draw gyda'u bywydau bob dydd. Gallai hyn gynnwys dangosyddion sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforol – er enghraifft mynediad gwell at wasanaethau gofal iechyd, llai o gamddefnyddio sylweddau – a meddyliol – er enghraifft llai o straen, gorbryder ac iselder. Byddai'r canlyniad hwn hefyd yn edrych ar leihau'r risg o ail-erledigaeth, er enghraifft i ddiodefwyr cam-drin domestig neu ddiodefwyr caethwasiaeth fodern. Dyma yw'r prif ganlyniad i'r gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr ac yn un y dylai pob comisiynydd fod yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau yn adrodd yn ei erbyn.

Enghraifft o gwestiynau y gellir eu holi i fesur y canlyniad hwn yw:

- A yw eich profiad gyda ENW'R GWASANAETH wedi eich galluogi i symud ymlaen?
 - Gan gofio'r newidiadau yr oeddech eisiau eu gwneud cyn i chi gael mynediad at y gwasanaeth hwn, a yw eich profiad gyda ENW'R GWASANAETH wedi eich helpu i wneud y newidiadau hyn?
 - Allwch chi rannu beth oedd y rhain neu newidiadau eraill? Er enghraifft, rhywbeth penodol y mae eich profiad gyda ENW GWASANAETH wedi eich galluogi i'w wneud neu roi'r gorau i'w wneud a allai fod yn ffordd o feddwl, teimlo neu ymddwyn?
- 2. Teimlo'n fwy gwybodus –* Mae'r canlyniad hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod diodefwyr yn gwybod beth a roddir iddynt o dan y Cod Dioddefwyr, a'u bod yn teimlo'n wybodus ynghylch ehangder ac ystod y gwasanaethau sydd ar gael i'w cefnogi. Mae adborth yn awgrymu nad yw diodefwyr bob amser yn derbyn gwybodaeth gywir neu lawn am ba wasanaethau y gallant gael mynediad atynt, ac maent yn aml yn cael gwybod amdanynt wrth ymgysylltu â gwasanaethau cymorth. Gall y canlyniad hwn olrhain lefel uwch o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r system cyfiawnder troseddol, p'un a yw'r diodefwyr yn rhoi gwybod i'r heddlu ai peidio.

Enghraifft o gwestiynau y gellir eu holi i fesur y canlyniad hwn yw:

- Oeddech chi'n ymwybodol o'r cymorth y mae gennych hawl i'w gael fel diodefwyr trosedd?
- A yw eich cyswllt gyda ENW GWASANAETH wedi cynyddu eich ymwybyddiaeth neu eich dealltwriaeth o'r cymorth sydd ar gael i chi fel diodefwyr trosedd?

SWYDDOGOL SENSITIF

- A yw eich cyswllt gyda ENW GWASANAETH wedi cynyddu eich ymwybyddiaeth neu eich dealltwriaeth o'r system cyfiawnder troseddol a'i phrosesau?
3. *Wedi derbyn yr holl gymorth oedd ei angen arnynt pan oeddent ei angen –* Mae'r canlyniad hwn yn gysylltiedig â sicrhau bod yr holl gymorth a oedd ei angen wedi'i dderbyn pan oedd y dioddefwr ei angen. Gwyddom fod cymhlethdod y cymorth sydd ei angen yn amrywio o ddiodeffwr i ddiodeffwr, ac y bydd pob taith yn wahanol. Bydd y canlyniad hwn yn sicrhau, waeth beth yw'r math o gymorth, hyd y cymorth neu pryd yn y broses gymorth y ceisiwyd y cymorth, ei fod wedi'i dderbyn gan y dioddefwr ar eu telerau hwy. Gall hyn fod yn un cyswllt mynediad neu'n gysylltiadau mynediad lluosog i'r strwythur cymorth.

Enghraifft o gwestiynau y gellir eu holi i fesur y canlyniad hwn yw:

- Wnaethoch chi dderbyn yr holl gymorth oedd ei angen arnoch yn ystod eich amser gyda ENW GWASANAETH?
- Wnaethoch chi allu cael mynediad at y cymorth yr oeddech ei angen yn ystod eich amser gyda ENW GWASANAETH?
- Os na wnaethoch allu cael mynediad at y cymorth yr oeddech ei angen, a gawsoch eich cyfeirio at wasanaeth arall a allai neu a oedd yn cynnig ymyrraeth amgen?

Gwyddom na fydd pob diodeffwr yn dewis ymgysylltu â'r system cyfiawnder troseddol, felly rydym yn ystyried y canlyniad isod sy'n ychwanegol ac yn berthnasol i'r rhai sydd yn ymgysylltu. Fodd bynnag, credwn y dylai'r gwasanaethau cymorth barhau i ystyried y canlyniad hwn oherwydd mae'n galluogi'r llywodraeth i greu darlun o brofiad y diodeffwr gyda'r system cyfiawnder, oherwydd gwyddom fod cysylltiad rhwng y lefel o gymorth mae diodeffwr yn ei derbyn a'u hymgysylltiad gyda'r broses llys.

4. *Ymgysylltiad uwch gyda'r system cyfiawnder troseddol (ychwanegol) –* Mae'r canlyniad hwn yn berthnasol i ddiodeffwyr sy'n adrodd eu trosedd i'r heddlu neu wasanaethau statudol eraill, a bydd yn olrhain eu profiad o'r broses cyfiawnder troseddol ar hyd cyfnod eu cymorth. Bydd y canlyniad yn sicrhau bod diodeffwyr sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn derbyn y math cywir o gymorth sydd ei angen arnynt i'w helpu drwy'r broses ac i symud ymlaen gyda'u bywydau yn y pen draw. Hefyd, dylai'r canlyniad hwn, lle bynnag y bo'n bosibl, gynnwys casglu data gan ddiodeffwyr sy'n adrodd ac yna'n penderfynu tynnu allan, neu dynnu'n ôl o'r achos a'r gefnogaeth gysylltiedig, a'u rhesymau dros wneud.

Enghraifft o gwestiynau y gellir eu holi i fesur y canlyniad hwn yw:

- A wnaeth y cymorth a gawsoch gan ENW GWASANAETH eich helpu drwy eich ymgysylltiad gyda'r system cyfiawnder troseddol?
- Heb eich cymorth gan ENW GWASANAETH, ydych chi'n credu y byddech wedi tynnu'n ôl o'r broses cyfiawnder troseddol?

SWYDDOGOL SENSITIF

- Beth mae ENW GWASANAETH wedi'i wneud yn benodol i'ch cefnogi yn ystod eich ymgysylltiad yn y broses cyfiawnder troseddol?

Rydym hefyd yn annog y defnydd o destun rhydd neu gwestiynau agored i fesur boddhad dioddefwr gyda'r cymorth maent wedi'i dderbyn. Gall y rhain gynnwys cwestiynau sy'n gofyn am adborth dioddefwr ar beth yr oeddent yn ei hoffi a ddim yn ei hoffi am y gwasanaeth, a oeddent yn credu bod angen gwneud unrhyw welliannau ac a fyddent yn argymhell y gwasanaeth i ddioddefwyr eraill a oedd yn ceisio cymorth.

Atodiad B – Metrigau Craidd

Math o Fetrig	Metrig	Diffiniad
Demograffeg	Oedran	17 ac iau 18 – 34 35 – 54 55 – 74 75 a hŷn Ni nodwyd
	Hunaniaeth rhywedd	Menyw Dyn Anneuaidd Dim Ni nodwyd
	Cyfeiriadedd Rhywiol	Heterorywiol Hoyw Lesbiad Deurywiol Arall Ni nodwyd
	Ethnigrwydd	Gwyn Asiaidd / Asiaidd Prydeinig Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig Grwpiau Ethnig Cymysg / Lluosog Grŵp Ethnig Arall Ni nodwyd
	Anabledd	Mae ganddynt anabledd Nid oes ganddynt anabledd Ni nodwyd

Tabl 1: Metrigau Demograffeg

SWYDDOGOL SENSITIF

Math o Fetrig	Metrig	Manylion
Atgyfeiriadau	Nifer y dioddefwyr ar restr aros gwasanaeth Hyd yr amser ar y restr aros	Byddem yn diffinio rhestr aros fel 'aros i gael mynediad at eu gwasanaeth dewisol'. Rydym yn cydnabod nad yw pob gwasanaeth yn defnyddio rhestrau aros, felly rydym yn annog y metrig hwn i fesur pa mor hir y mae dioddefwr yn aros i gael mynediad at y gwasanaeth a ffafir ganddynt (er enghraifft, os yw dioddefwr yn cael cymorth ffôn ond yr hoffai gael cwnsela wyneb yn wyneb).
	Nifer yr atgyfeiriadau dioddefwyr newydd i'r gwasanaethau cymorth	Er mwyn cofnodi nifer y dioddefwyr sy'n cael eu hatgyfeirio at wasanaeth cymorth mewn un cyfnod adrodd. Mae hyn yn ein galluogi i weld faint sy'n ceisio cymorth ac am ba fathau o wasanaethau. Gallai'r metrig hwn hefyd gwmpasu'r hyd o amser a gymerwyd i ddiodefwr dderbyn eu cymorth o ddewis ar ôl cael eu hatgyfeirio.
	Cyfanswm nifer y dioddefwyr a ymgysylltodd â'r gwasanaeth cymorth yn ystod y cyfnod adrodd (newydd a phresennol)	Er mwyn cofnodi'r holl ddiodefwr sy'n derbyn cymorth yn ystod cyfnod adrodd, ac i ddadansoddi hyn yn ddiodefwr newydd (a ddechreuodd dderbyn cymorth yn ystod y cyfnod hwnnw) a diodefwr presennol (a oedd eisoes yn derbyn cymorth ac sy'n parhau i'w dderbyn). Gallai'r metrig hwn hefyd fesur unrhyw ddiodefwr sydd wedi ail-ymuno â'r gwasanaeth, os yw'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi.
	Cyfanswm nifer y diodefwr a atgyfeiriwyd at wasanaethau eraill	Byddem yn diffinio 'gwasanaethau eraill' fel: gwasanaethau cymorth i ddiodefwr, gwasanaethau cymorth ariannol, cymorth tai, gwasanaethau gofal iechyd neu wasanaethau anghenion ychwanegol/cymhleth. Nifer y diodefwr a atgyfeiriwyd ymlaen yn ystod y cyfnod adrodd hwn.
	Cyfanswm nifer y diodefwr a ymgysylltodd mewn cymorth a adroddodd i'r heddlu (gweithredol ac anweithredol)	Er mwyn cofnodi faint o ddiodefwr a ymgysylltodd â'r system cyfiawnder troseddol. Dylid dadansoddi'r metrig hwn yn achosion 'gweithredol' (y rhai sy'n cael eu prosesu yn awr) ac achosion 'anweithredol' (y rhai sydd wedi'u cwblhau, neu pan fydd y diodefwr wedi tynnu allan o'r broses)
	Cyfanswm nifer y diodefwr a adawodd y gwasanaeth yn ystod y cyfnod adrodd	Er mwyn cofnodi faint o ddiodefwr sydd wedi gorffen derbyn cymorth. Gellir dadansoddi'r metrig hwn ymhellach yn ôl y rhai sydd wedi cwblhau eu cymorth neu'r rhai sydd wedi tynnu allan.

Tabl 2: Metrigau Atgyfeirio

Gall enghreifftiau o fetrigau neu adborth ansoddol gynnwys:

- Arolygon y gellir eu cwblhau naill ai ar ôl gadael gwasanaeth neu, os yw'n briodol, yn ystod y cyfnod o dderbyn cymorth. Gellir casglu'r arolygon hyn gan ddefnyddio offer sy'n galluogi dioddefwyr i'w cwblhau ar-lein, neu drwy gopi drwy'r post. Mae'n bwysig nodi y dylai pob arolwg gynnwys cwestiwn optio i mewn er mwyn sicrhau cydsyniad i ddefnyddio'r adborth wrth ddylunio gwasanaethau, cyllid neu at ddibenion ymchwil.
- Cynnwys gwahoddiad i ddioddefwyr gymryd rhan yn y broses o ddatblygu gwasanaethau neu brosiectau yn y dyfodol. Mae hyn yn sicrhau gwasanaeth wedi'i arwain gan ddioddefwyr ac yn galluogi'r dioddefwr i ddefnyddio eu llais i siapia dyfodol y cynnig cymorth.
- Cynnal fforymau neu sesiynau drws agored yn rheolaidd lle gall dioddefwyr drafod neu gynnig adborth ar y gwasanaeth yn fwy cyffredinol. Mae'n bosibl na fydd angen i hyn fod yn gysylltiedig â phrofiad dioddefwyr unigol, ond gallai fod yn gyfle i ymgysylltu â grwpiau dioddefwyr ehangach neu eiriolwyr a all gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth.
- Datblygu panel neu grŵp annibynnol sy'n cynnwys aelodaeth o ddioddefwyr a goroeswyr neu arbenigwyr y gellir eu defnyddio i brofi neu gynghori ar ansawdd y gwasanaeth, a darparu argymhellion neu adborth rheolaidd.

Atodiad C – Ein dull gweithredu

Yn dilyn ymrwymiad a wnaed yn yr Uwchgynhadledd Niwed Cudd, dechreuodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddatblygu Strategaeth Ariannu Dioddefwyr. Fel rhan o'r gwaith datblygu hwn, fe wnaethom ymgysylltu â nifer o randdeiliaid oedd â diddordeb.

Diolch i'r darparwyr gwasanaeth, comisiynwyr lleol, asiantaethau'r llywodraeth a sefydliadau'r sector cymunedol a gyfrannodd at y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth, ac sy'n parhau i ymgysylltu ar ei gweithrediad.

Gyda diolch yn benodol i:

- Y Comisiynydd Dioddefwyr a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, a gefnogodd yr ymgysylltiad ac a ddarparodd eu hadborth ar y Strategaeth hon.
- Y Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a ddarparodd ofod i ni ymgysylltu â swyddfeydd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn gynnar yn y broses ddatblygu, ac a barhaodd i gyfathrebu drwy'r broses.
- Pob sefydliad sy'n rhan o'r Drefn Rheoli Arian (fforwm sector y Weinyddiaeth Gyfiawnder) a gyfrannodd ac a ddarparodd enghreifftiau o lle y gellid cyflawni gwelliannau.

Atodiad Ch – Datganiad cydraddoldeb

Rydym wedi ystyried ein rhwymedigaethau cydraddoldeb yn unol ag adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010. Rydym o'r farn nad yw'r ymrwymadau yn y Strategaeth yn gwahaniaethu'n uniongyrchol oherwydd ni fyddai'n achosi i ddioddefwyr gael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu nodwedd warchoddedig. Credwn y bydd ein newidiadau arfaethedig yn bositif i ddioddefwyr yn gyffredinol, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig.

Bydd Datganiadau Cydraddoldeb yn cael eu cynhyrchu ar gyfer meysydd gwaith penodol sy'n cael eu cynnal gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac adrannau eraill y llywodraeth y cyfeirir atynt yn y Strategaeth Ariannu Dioddefwyr.

Atodiad D – Rhestr Termiau

CJS (criminal justice system) – System Cyfiawnder Troseddol

CCG (Clinical Commissioning Group) – Grŵp Comisiynu Clinigol

Cod Dioddefwyr – Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau (Cod Dioddefwyr) yn disgrifio'r gwasanaethau a safon ofynnol ar gyfer y gwasanaethau hyn y mae' rhaid eu darparu gan sefydliadau (y cyfeirir atynt fel darparwyr gwasanaeth) i ddioddefwyr yng Nghymru a Lloegr.

DAC (Domestic Abuse Commissioner) – Comisiynydd Cam-drin Domestig

DLUHC (Department for Levelling Up, Housing and Communities) – Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau

GEO (Government Equalities Office) – Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth

Gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' – Gwasanaethau arbenigol sy'n cael eu harwain, eu dylunio a'u cyflawni gan ac ar gyfer y defnyddwyr a'r cymunedau maent yn ceisio eu gwasanaethu (er enghraifft, dioddefwyr a goroeswyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, dioddefwyr byddar ac anabl a dioddefwyr LGBT)

HO (Home Office) – Swyddfa Gartref

ICBs (Integrated Care Boards) – Byrddau Gofal Integredig

ICSs (Integrated Care Systems) – Systemau Gofal Integredig

ISVA (Independent Sexual Violence Adviser) – Cynghorydd Annibynnol Trais Rhywiol

IDVA (Independent Domestic Violence Adviser) – Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig

LCJB (Local Criminal Justice Board) – Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol

LGBT – Lesbiad, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, a chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaethau rhywedd eraill

MoJ (Ministry of Justice) – Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

NSE (National Statement of Expectations) – Datganiad Cenedlaethol o Ddisgwyliadau

PCC (Police and Crime Commissioner) – Comisiynydd Heddlu a Throseddu

SARC (Sexual Assault Referral Centre) – Canolfan Atgyfeiriadau Ymosodiadau Rhywiol

VAWDASV (Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence) – Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn wedi'u datganoli yng Nghymru.

VAWG (Violence against women and girls) – trais yn erbyn menywod a merched. Mae'r term 'trais yn erbyn menywod a merched' yn cyfeirio at weithredoedd o drais neu gamdriniaeth sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched. Mae troseddau

SWYDDOGOL SENSITIF

ac ymddygiad sydd wedi'u cwmpasu gan y term hwn yn cynnwys treisio a throseddau rhywiol eraill, cam-drin domestig, stelcio, cam-drin ar sail 'anrhydedd' (gan gynnwys anffurfio organau cenhedlu benywod, priodas dan orfod, a lladd ar sail 'anrhydedd'), yn ogystal â llawer o fathau eraill, gan gynnwys troseddau sy'n cael eu cyflawni ar-lein. Er ein bod yn defnyddio'r term 'trais yn erbyn menywod a merched', mae hyn yn cyfeirio at holl ddioddefwyr unrhyw rai o'r troseddau hyn, gan gynnwys dynion a bechgyn.

VC – (Victims' Commissioner) - Comisiynydd Dioddefwyr

SWYDDOGOL SENSITIF

E02752184
978-1-5286-3374-1